



Wild About Gardens

#wildaboutgardens

wildaboutgardens.org.uk



The
Wildlife
Trusts



RHS

Inspiring everyone to grow



Bach neu fawr,
pyllau i bawb



Pam pwll?

Ychwanegu pwll yw un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud ar gyfer bywyd gwyllt yn eich gardd

Rydym yn colli ein pyllau, afonydd a nentydd yn gyflym. Mae colli neu ddirywiad y llefydd hyn – i ddatblygiad, draenio a ffermio dwys – yn gysylltiedig â dirywiad enfawr mewn bywyd gwyllt, o lyffantod a brogaod, i lygod pengrwn y dŵr a phryfed.

Sut gallwch chi helpu

Nid yw popeth wedi cael ei golli. Mae llawer y gallwn ni ei wneud yn ein gerddi a'n cymunedau ein hunain i helpu. Gall hyd yn oed pwll bach fod yn gartref i amrywiaeth ddiddorol o fywyd gwyllt, gan gynnwys mursennod a gweision y neidr, llyffantod a madfallod dŵr. Gallai hefyd ddod yn safle bwydo ar gyfer adar, draenogod ac ystlumod – creaduriaid sy'n wych am reoli plâu yn eich gardd!

Meddyliwch yn fawr, dechreuwch yn fach

Does dim angen i'ch pwll fod yn fawr. Gallai powlen golchi llestri, pot planhigion mawr, neu sinc segur gael eu hailddefnyddio fel pyllau, ar yr amod eich bod yn sicrhau bod creaduriaid yn gallu mynd i mewn ac allan. Edrychwch ar dudalen 5 am ganllaw cam wrth gam ar greu eich pwll.



Fel larfa
tanddwr, **bydd**
gweision y neidr
yn bwyta unrhyw
anifeiliaid llai na
nhw eu hunain,
gan gynnwys
penbyliaid.

Mae gan weision y
neidr olwg arbennig o
dda, sy'n eu gwneud yn
ysglyfaethwyr
gwyh
ar bryfed hedfan llai.

Wrth orffwys,
mae gweision
y neidr yn dal eu
hadenydd yn fflat o'u
corff, fel awyren,
ac mae mursennod yn
plygu eu hadenydd
i fyny y tu ôl
iddyn nhw.

Mae gan
frogaod y gallu i
anadlu drwy
eu croen,
sy'n gadael iddynt aros
o dan y ddŵr heb
foddi.

Mae **pysgod**
yn bwyta **wyau**
madfalloed dŵr
a griffi llyffant
yn frwd a gallant gael
effaith negyddol ar
natur pwll gardd.

Mae pwll gardd
iach yn debygol o
gynnal amrywiaeth
ehangach o fywyd
gwyllt nag unrhyw
nodwedd arall yn
eich gardd.

Mae gan y lili
ddŵr drofannol,
Victoria amazonica,
ddail sy'n
tyfu hyd at
15cm y dydd
i gyfanswm o hyd at
3m mewn diametr.

Oeddet chi'n gwybod?

Pyllau bach



Os nad ydych chi'n meddwl bod gennych chi le i bwl, meddyliwch eto

Mae pyllau bach yn hynod werthfawr i fywyd gwyllt, a gallai rhwydwaith o byllau bach mewn cymdogaeth fod yn well na dim ond ychydig o rai mawr. Nid yn unig hynny ond maent yn rhad, yn hawdd eu creu ac yn haws fyth gofalu amdanynt. Mae posib adeiladu pyllau bach o amrywiaeth eang o gynwysyddion!

Eich pwll wedi'i uwchgylchu

Bydd angen 'gwddw' llydan ar eich pwll er mwyn i fywyd gwyllt allu mynd i mewn ac allan. Ar wahân i hynny, does dim ots am y siâp! Suddwch eich pwll neu ychwanegu ramp i greaduriaid gael mynediad. Byddwch yn greadigol – oes unrhyw beth y gallech chi ei uwchgylchu, fel powlen golchi llestri, cafn berfa, bin sbwriel plastig wedi'i lifio, hanner casgen, cafn rwbwr, pot planhigion mawr neu sinc?



Lapis2380/Shutterstock



Graffiti Maidorg/Shutterstock



Edda Dupree/Shutterstock



Dmitry Galagano/Shutterstock

Sut i greu pwll bach i fywŷd gwylt

Rhaid cael:

- hen fwcet neu gynhwysydd sy'n dal dŵr



- rhaw



- tywod



- hen frics, cerrig a gro mân



- dyfrllys brodorol (e.e. dyfrllys crych)




- 1 Rhaid gwneud twll sy'n ddigon dwfn i ddal eich cynhwysydd.

- 3 Rhowch y cynhwysydd yn y twll a llenwi'r bylchau gyda phridd rhydd.

- 2 Rhaid cael gwared ar unrhyw gerrig miniog a leinio'r gwaelod gyda thywod.

- 4 Rhowch bentwr o gerrig a brics yn y gwaelod, gwasgaru'r gro mân ac ychwanegu dyfrllys. Llenwch y cynhwysydd gyda dŵr glaw.



Plannu eich pwll



Mae planhigion yn rhan bwysig o'ch pwll bywyd gwyllt, gan ocsigeneiddio'r dŵr a darparu bwyd a lloches. Defnyddiwch rywogaethau brodorol y DU os yw hynny'n bosibl.

Y pethau sylfaenol

Mae tyfu planhigion pwll mewn cynwysyddion yn opsiwn da ar gyfer pwll llai gan ei fod yn eu cadw rhag lledaenu. Fel arfer mae gan fasgedi dŵr ochrau rhywlog i alluogi dŵr, aer a nwyon eraill i lifo drwodd. Oni bai bod y rhwyll yn fân iawn, dylent fod hefyd wedi'u leinio â hesian neu ffabrig i atal y pridd rhag golchi allan.

- Dewiswch gompost dyfrol neu ddefnyddio cymysgedd o dywod a graean.
- Er mwyn sefydlogi planhigion talach, rhowch greigiau a cherrig mawr ar waelod y cynwysyddion.
- Dylid plannu planhigion i'r un dyfnder pridd ag yn y cynhwysydd gwreiddiol.
- Gosodwch y planhigion yn eu lle yn gadarn ac wedyn taenu haen denau o raeau neu ro mân.
- Mae posib gosod planhigion arnofiol yn ysgafn ar wyneb y dŵr. Gwahanwch unrhyw glystyrau mawr ac anelu at un planhigyn fesul metr sgwâr.



Ar yr ymyl:

Mae'r planhigion hyn yn dda ar gyfer rhannau bas ac ymylon eich pwll (hyd at ddyfnder o 5cm o ddŵr).

Gold y gors (*AGM)

(*Caltha palustris*)

Blodau euraidd mawr ym mis Mawrth.

Llyriad y dŵr

(*Alisma plantago-aquatica*)

Gall fod yn ormod i byllau bach.

Llafnllys bach

(*Ranunculus flammula*)

Blodau melyn llachar, dail glaswyrdd llachar.

Scorpionlllys y gors

(*Myosotis scorpioides*)

Blodau glas ym mis Mai.

Planhigion arnofiol a lilis dŵr:

Mae'r planhigion hyn yn cynnig clwyd ar gyfer anifeiliaid fel llyffantod a gwenyn.

Ffugalaw bach

(*Hydrocharis morsus-ranae*)

Blodau gwyn bach.

Milwr y dŵr

(*Stratiotes aloides*)

Yn arnofio ychydig o dan yr wyneb. Gall fod yn ormod i byllau bach.

Lili ddŵr wen

(*Nymphaea alba*)

Dim ond yn addas ar gyfer pyllau mwy.

Planhigion tanddwr:

Yn cael eu hadnabod hefyd fel planhigion ocsigeneiddio, byddant yn cadw eich dŵr yn iach. Nid ydynt yn hanfodol ar gyfer pwll bach.

Crafanc-y-frân y dŵr

(*Ranunculus aquatilis*)

Blodau gwyn ym mis Mai.

Fioled y dŵr

(*Hottonia palustris*)

Blodau lelog yn yr haf.

Pelenlllys gronynnog

(*Pilularia globulifera*)

Mwsogl helyg

(*Fontinalis antipyretica*)

Mae'n well ei blannu ynghlwm wrth garreg.

Planhigion ar gyfer pyllau bach:**Lili dŵr bach (*AGM)**

(*Nymphaea 'Pygmaea Helvola'*)

Llafnllys lleiaf

(*Ranunculus flammula*)

Brigwlydd

(*Callitriche stagnalis*)


Brwyn blodeuol

(*Butomus umbellatus*)


***AGM**

Gwobr Teilyngdod Gardd yr RHS





Pwll bywyd gwyllt ar waith



- 1 Mae llwyni isel yn darparu cysgod i adar
- 2 Mae glaswellt tal neu botiau yn cysgodi brogaod
- 3 Mae rampiau yn caniatáu mynedfa a dihangfa i fywyd gwyllt
- 4 Mae planhigion yn ychwanegu ocsigen at ddŵr y pwll
- 5 Mae pyllau yn creu mannau bwydo ar gyfer ystlumod
- 6 Mae gwenyn yn gorffwys ar blanhigion arnofiol i yfed
- 7 Mae planhigion yn darparu llefydd i fywyd gwyllt lynu wrthynt a dodwy wyau
- 8 Mae creigiau'n creu cuddfannau i fadfallod y dŵr

Adnabod creaduriaid y pwll

				
☐ Broga bychan	☐ Mursen las gyffredin	☐ Gwas y neidr gwäell gyffredin	☐ Cychwr y dŵr	☐ Chwilen blymio fawr
				
☐ Cylionyn Mai	☐ Madfall ddŵr	☐ Gwas y neidr glas	☐ Malwen y dŵr	☐ Llyffant dafadennog

Creu pwll bywyd gwylt

Bydd rhaid cael

- Darn mawr o ardd

- Rhaw 

- Darn o bren 

- Lefel saer 

- Leinin pwll butyl 

- Tywod 

- Dŵr Glaw 

- Amrywiaeth o blanhigion pwll 

- Creigiau mawr 

Cofiwch: peidiwch ag ychwanegu pysgod na phwmp. Bydd y pysgod yn bwyta ffurfiau bywyd bach i'gan gynnwys larfa brogaod a madfalled dŵr) ac efallai y bydd y pwmp yn eu sugno!

- 1 Dewiswch eich llecyn. *Tynnwch lun amlinelliad eich pwll a'i gloddio, gan gynnwys rhai ardaloedd bas.



Defnyddiwch ddarn o bren a lefel saer i wneud yn siŵr bod yr ymylon yn lefel

- 2 Rhowch haen o dywod ar y gwaelod (peidiwch â defnyddio'r cyfan, bydd arnoch chi angen rhywfaint yn nes ymlaen).



- 3 Gwnewch ffos o amgylch ymyl eich pwll a gosodwch ymyl y leinin ynddi. Pwyswch i lawr gyda chreigiau mawr.



- 4 Llenwch y gwaelod gyda'r tywod sydd ar ôl.



- 5 Llenwch y pwll gyda dŵr.



Defnyddiwch ddŵr glaw am y canlyniadau gorau.

- 6 Dechreuwch ychwanegu eich planhigion.



- 7 Gwylwch a gweld pa fywyd gwylt fydd yn ymweld.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu darn o bren, neu rywbeth tebyg, fel ramp i helpu unrhyw fywyd gwylt sydd wedi syrthio i mewn.



* Chwiliwch am lecyn gyda digon o haul, yn ddelfrydol gyda rhywfaint o gysgod yn y prynhawn. Ceisiwch osgoi coed gerllaw, oherwydd gall dail syn syrthio lygru'r pwll.

Gofalu am eich pwll drwy gydol y flwyddyn

Gwanwyn

Rhowch badiau gwellt haidd i mewn yn y pwll i helpu i leihau problemau gydag algâu. Ceisiwch beidio â tharfu gormod ar eich pwll ar yr adeg yma, mae llawer o weithgarwch o dan yr wyneb. Cyflwynwch unrhyw blanhigion newydd lle bo angen o ganol y gwanwyn ymlaen. Gallwch rannu planhigion a chompostio unrhyw ormodedd.

Haf

Mae anweddu'n normal, ond os bydd lefel y dŵr yn gostwng yn isel, rhowch ddŵr glaw ar ei ben. Cadwch y glaswellt o amgylch y pwll yn dal yn gysgod i frogaod ifanc. Torrwch blanhigion cryf yn ôl a chael gwared ar linad y dŵr. Gall chwyn blanced gael ei dynnu allan fesul dipyn hefyd, ond byddwch yn ofalus a chadw llygad am fadfallod dŵr sydd wedi'u dal ynddo, neu gychwyr dŵr, neu greaduriaid eraill. Os sylwch chi ar hyn, golchwch y chwyn mewn bwced gyda dŵr y pwll cyn ychwanegu'r bywyd gwyllt yn ôl i'r pwll.

Anna Williams

Hydref

Os oes angen i chi wneud unrhyw waith cynnal a chadw, fel cael gwared â llifwaddod, gwnewch hynny nawr tra bod y pwll yn llai prysur. Bydd y planhigion yn marw hefyd yn ystod yr adeg yma. Sicrhewch ddigon o olau i'r pwll drwy gael gwared ar ormodedd o ddail sydd wedi disgyn a thorri canghennau sy'n crogi drosodd yn ôl.



Gaeaf

Mae rhewi'n normal ac yn annhebygol o leihau lefelau ocsigen yn ormodol mewn pwll iach. Gallai pwll bach gael ei insiwleiddio gyda swigod lapio, drwy ei gadw'n agos at y tŷ, neu ei suddo i'r ddaear i helpu i'w atal rhag rhewi. Ceisiwch osgoi malu'r iâ oherwydd gallai'r darnau mân achosi difrod. Os mai eich pwll chi yw'r unig ffynhonnell yfed ar gyfer bywyd gwyllt, gadewch bêl yn y dŵr i gadw darn heb iâ ger yr ymyl. Neu toddwch dwll drwy ddal padell o ddŵr poeth ar yr wyneb. Symudwch unrhyw eira sydd wedi syrthio ar wyneb eich pwll er mwyn gadael i olau gyrraedd y dŵr.






Ddim eisiau pwll? **Mae pethau eraill y gallwch chi eu gwneud**

- 1 Cloddiwch sianel neu bant bas a fydd yn caniatáu i ddŵr glaw gronni. Bydd hyn yn arafu dŵr ffo storm ac yn ychwanegu cynefin bywyd gwyllt at eich gardd.
- 2 Llenwch soseri a baddonau adar gyda dŵr er mwyn i fywyd gwyllt gael diod neu ymdrochi; ychwanegwch farblis neu gerrig at ddysgl dŵr bas i greu clwyd ar gyfer gwenyn.
- 3 Ewch i weld pwll yn eich ardal leol i weld pa fywyd gwyllt sy'n byw yno. Rhowch wybod i ni beth rydych chi wedi'i weld!
- 4 Ewch ati i greu gardd gors fechan fel dewis arall yn lle pwll, heb lawer o waith cynnal a chadw. Yn syml, llenwch eich cynhwysydd neu ofod â phridd a'i blannu gyda phlanhigion ymylol o t.7.

Ewch i **www.wildaboutgardens.org.uk** am ragor o wybodaeth.



Eich cyngor doeth chi ar gyfer pyllau

1.

Diogelwch yn gyntaf:

Os ydych chi'n poeni am **blant neu anifeiliaid anwes, ystyriwch orchuddio eich pwll gyda grid gwifren** sydd hefyd yn caniatáu i frogaod fynd i mewn ac allan, neu os yw'n fwy, ffens i'w amgylchynu. **Ceisiwch osgoi rhwyd oherwydd gallai anifeiliaid gael eu dal ynddi.**

2.

Nid gofalu yw rhannu:

Ceisiwch osgoi rhannu dŵr rhwng pyllau, **oherwydd gall hyn drosglwyddo clefydau neu rywogaethau ymledol.**

3.

Gadael i bysgod:

Mae'n well **peidio ag ychwanegu pysgod** at eich pwll oherwydd **gallant lygru'r dŵr** a bwyta'r planhigion a'r anifeiliaid eraill.

4.

Amseru creu eich pwll:

Gallwch chi ddechrau creu eich pwll ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, **ond os gwnewch chi hynny yn yr hydref neu'r gaeaf bydd** yn barod ar gyfer y llu o fwrllwm **yn y gwanwyn.**

5.

Pa mor fawr?

Mae pwll gardd 2m wrth 2m a 60cm o ddyfnder yn berffaith ar gyfer brogaod dros y gaeaf. Bydd pwll bach 20-30cm o ddyfnder yn werthfawr i fywyd gwyllt hefyd.

6.

Cael gwared ar chwyn blanced:

Gall **ychwanegu lafant neu wellt haid** at eich pwll yn y gwanwyn helpu i'w gadw'n **rhydd o algâu a chwyn blanced.** Tynnwch y gwellt ar **ddiwedd y tymor** rhag iddo bydru.

Amdanom Ni

Sefydldd yr Ymddiriedolaethau Natur a'r RHS Wild About Gardens i ddathlu garddio er budd bywyd gwyllt ac i annog pobl i weithredu dros fyd natur. Yn ystod y 50 mlynedd diwethaf rydyn ni wedi gweld gostyngiadau mewn dwy ran o dair o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn y DU. Mae llawer o'n hymwelwyr cyffredin â'r ardd – gan gynnwys draenogod, adar y to a drudwy – dan fygythiad cynyddol.

I gael gwybod mwy am arddio er budd bywyd gwyllt a chreu'r pwll perffaith i chi, edrychwch ar ein gwefan ni. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr misol neu ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i dderbyn diweddariadau a syniadau ar gyfer popeth gwyllt am erddi.



wildaboutgardens.org.uk | facebook.com/groups/WildAboutGardens | [@WildAbtGardens](https://twitter.com/WildAbtGardens)

Yr Ymddiriedolaethau Natur

Dim ots ble rydych chi yn y DU, mae Ymddiriedolaeth Natur sy'n ysbrydoli pobl am fyd natur ac achub, diogelu a sefyll dros fywyd gwyllt a llefydd gwyllt yn eich ardal chi. Rydyn ni'n credu bod pobl yn rhan o fyd natur; mae popeth rydyn ni'n ei werthfawrogi yn y pen draw yn deillio ohono ac mae popeth rydyn ni'n ei wneud yn cael effaith arno.

Gyda chefnogaeth mwy nag 800,000 o aelodau, gyda'i gilydd mae'r Ymddiriedolaethau Natur yn gofalu am 2,300 o warchodfeydd natur amrywiol a hardd. Mae'r gwarchodfeydd natur rydyn ni'n gofalu amdany'n nhw yn gartref i briddoedd hynafol sydd heb eu haflonyddu, ac mae ein haelodau ni'n ein helpu ni i'w diogelu. Rydyn ni'n gweithio i ysbrydoli a grymuso pobl i gymryd camau yn eu bywydau i helpu bywyd gwyllt.

E-bost: info@wildlifetrusts.org

Ar-lein: wildlifetrusts.org



@WildlifeTrusts



/wildlifetrusts



thewildlifetrusts

Elusen gofrestredig rhif 207238

Llun clawr blaen: ©Ross Hoddinott/naturepl.com
Darluniau gan Corinne Welch
Diolch i Freshwater Habitats Trust a Froglife am gyngor a chymorth

Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol

Ers mwy na 210 o flynyddoedd, mae'r RHS wedi bod yn rym y tu ôl i arddio yn y DU. Ein nod ni yw cyfoethogi bywyd pawb trwy blanhigion, a gwneud y DU yn lle gwyrddach a harddach. Rydyn ni'n credu y dylai pawb ym mhob pentref, tref a dinas elwa o dyfu – er mwyn cael cymunedau cryfach, iachach a hapusach.

Dim ond diolch i gefnogaeth hael ymwelwyr, aelodau, partneriaid, rhoddwyr a noddwyr mae ein gwaith ni ym myd addysg, gwyddoniaeth a chymunedau yn bosibl. Gyda'ch help chi gallwn ffrwyno pŵer garddwriaeth, un garddwr ar y tro.

E-bost: membership@rhs.org.uk

Ar-lein: rhs.org.uk



@The_RHS



/rhshome



the_rhs



rhshome

Elusen gofrestredig rhif 222879/SC038262



The
Wildlife
Trusts



RHS
Inspiring everyone to grow

